



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm
Clydach, CF40 2XX
Dydd Mercher, 21ain Tachwedd, 2018 am 2.30 pm

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol
(Rhif ffôn. 01443 424110)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Llun, 19 Tachwedd 2018. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/ly Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Derbyn cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet a gafodd eu cynnal ar y dyddiadau canlynol fel cofnodion cywir:

- 3 Hydref, 2018.
- 16 Hydref, 2018.
- 18 Hydref 2018.

3. MODERNEIDDIO GOFAL PRESWYL A GOFAL DYDD AR GYFER POBL HÛN

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, gan ddarparu'r manylion o fewn yr adolygiad a gafodd ei gynnal a cheisio cymeradwyaeth er mwyn ymgynghori ar y dewisiadau ar gyfer cartrefi gofal preswyl a darpariaeth gofal dydd er mwyn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniad hyddysg am ddyfodol y ddarpariaeth yma yn Rhondda Cynon Taf.

(Tudalennau 33 - 80)

4. GWASANAETH CYMORTH YN Y CARTREF MAESTRISANT

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â chanlyniad yr ymgynghoriad i newid y gwasanaeth Cymorth yn y Cartref mewnol penodol ym Maestrisant, Tonysguboriau, i ddarparwr gofal yn y cartref arall.

(Tudalennau 81 - 88)

5. TAI GOFAL YCHWANEGOL - DARPARU GOFAL A CHYMORTH

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer model comisiynu'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau gofal a chymorth mewn tai gofal ychwanegol sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n agor yn y dyfodol.

(Tudalennau 89 - 98)

6. DATGANIAD O FWRIAD RHANBARTHOL CWM TAF AR GYFER CEFNOGI PLANT, POBL IFAINC A THEULUEDD

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi'r manylion i'r Aelodau am Ddatganiad o Fwriad Cwm Taf ar gyfer Cefnogi Plant, Pobl Ifainc a Theuluoedd.

(Tudalennau 99 - 134)

7. CYNNIG I DDATGAN CYNLLUN TRWYDDEDU NEWYDD AR GYFER TAI AMLFEDDIANNAETH YN 2019

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned, sy'n rhoi manylion am ba mor effeithiol y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol 2014 ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth, a chynnig bod y Cyngor yn datgan Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth o fis Ebrill 2019, yn unol â darpariaethau Deddf Tai 2004.

(Tudalennau 135 - 208)

8. RHCT GYDA'N GILYDD - ADOLYGIAD O'R BROSES DROGLWYDDO ASED AU YN Y GYMUNED.

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned sy'n cynnig nifer o newidiadau i'r broses RhCT Gyda'n Gilydd er mwyn ei unioni â chyfeiriad strategol cyfredol y Cyngor ar gyfer gwasanaethau ac asedau yn y gymuned.

(Tudalennau 209 - 216)

**9. CYNIGION I ADOLYGU'R DDARPARIAETH O GANOLFANNAU
DYDD YN Y GYMUNED YN RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd sy'n cynnig y dylai ymgynghoriad â ffocws gael ei gynnal gyda defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau lleol ynglŷn â'r Canolfannau Dydd sy'n weddill, a hynny er mwyn llywio penderfyniad am eu dyfodol.

(Tudalennau 217 - 224)

10. CYN CRAFFU - STRATEGAETH CARTREFI GWAG DRAFFT

Derbyn adroddiad Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol sy'n rhoi manylion i'r Aelodau am y camau cyn craffu sydd wedi'i gyflawni gan y Pwyllgor Craffu - Materion Iechyd a Lles mewn perthynas â'r strategaeth cartrefi gwag drafft.

(Tudalennau 225 - 266)

**11. DEALL EFFAITH BOSIBL BREXIT, YN ARBENNIG BREXIT 'HEB
FARGEN', AR Y CYNGOR**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr, sy'n rhoi crynodeb o'r manylion i'r Aelodau am effaith bosibl Brexit ar y Cyngor a'i drigolion.

(Tudalennau 267 - 304)

12. GORFODI PARCIO SIFIL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i ddarparu swyddogaethau prosesu Hysbysiad Tâl Cosb o ran gwasanaeth gorfodi parcio sifil ar ran Awdurdodau Lleol ledled De Cymru.

(Tudalennau 305 - 324)

**13. ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR – 30 MEDI 2018
(CHWARTER 2)**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi crynodeb i'r Aelodau am gyflawniad y Cyngor yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 30 Medi 2018) o ran materion ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

(Tudalennau 325 - 344)

14. LLINELL WAELOD (SYLFAEN) TRETH Y CYNGOR 2019/20

Derbyn adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n amlinellu Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20.

(Tudalennau 345 - 348)

15. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraethol Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

16. CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL 2018-2023

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig, sy'n nodi'r manylion am y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer 2018-2023.

(Tudalennau 349 - 428)

17. ARDALOEDD CYFLE STRATEGOL: CAFFAELIADAU

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr materion Adfywio, Cynllunio a Thai sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig, sy'n ceisio cymeradwyaeth benodol gan y Cabinet i gaffael tir ac adeiladau mewn Ardaloedd Cyfle Strategol, yn amodol ar brosesau gwerth gorau a diwydrwydd dyladwy er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni amcanion y Cyngor ar gyfer yr ardaloedd yma.

(Tudalennau 429 - 436)

**18. CYNON VALLEY WASTE DISPOSAL COMPANY LIMITED AC
AMGEN RHONDDA LIMITED – CYFARFOD CYFFREDINOL
BLYNYDDOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig sy'n rhoi manylion am y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol sydd i ddod.

(Tudalennau 437 - 496)

19. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

**Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol**

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Gyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant
Jane Cook, Cyfarwyddwr Uwchadran Adfywio, Cynllunio a Thai
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd

